

BATHAFARN BACH

CYLCHGRAWN HANES YR EGLWYS FETHODISTAIDD YNG NGHYMRU

Rhif 5 – Haf 2015

RHIFYN ARBENNIG

Er cof am y Parchedig E. H. Griffiths cyn-lywydd y Gymdeithas Hanes

Ganwyd Edward Henry Griffiths yn Ysgeifiog, Sir y Fflint ac addysgwyd ef yn yr ysgol elfennol yno ac yn Ysgol Sir Treffynnon, lle y bu'r Prifathro adnabyddus, Rhys T. Davies MA, yn ddylanwad pwysig ar ei ddatblygiad. Yn 1939 derbyniwyd ef yn ymgeisydd am y Weinidogaeth yn yr Eglwys Fethodistaidd ac anfonwyd ef i'w hyfforddi i Goleg Diwinyddol yr enwad hwnnw yn Handsworth, Birmingham. Cofrestrwyd ef ar unwaith yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Birmingham, ac yno yn 1943 y graddiodd yn BA. Yr oedd ei hyfforddiant gweinidogaethol yn y coleg enwadol yn cydreddeg â'i gwrs academaidd yn y Brifysgol. Yn unol ag arfer ei enwad, parhaodd ei hyfforddiant fel Gweinidog ar Brawf yn Rhiwlas a Phenmaenmawr, a rhoddodd hynny gyfle iddo i ymgofrestu'n fyfyrwr yn Ysgol Diwinyddiaeth Coleg Prifysgol Gogledd Cymru (fel yr oedd ar yr pryd) ym Mangor, lle y graddiodd yn BD yn 1946. Yn yr un flwyddyn ordeiniwyd ef i gyflawn waith y Weinidogaeth Fethodistaidd, a rhwng 1946 a 1985 gwasanaethodd yng ngweinidogaeth deithiol ei enwad ym Meifod, Ystumtuen, Lerpwl (Bootle), Llanrhaeadr ym Mochnant, Bae Colwyn, Llanrwst, Caernarfon a Rhyl. Yn ei holl ofalaethau enillodd barch ac edmygedd ymhlith yr enwadau oll fel pregethwr coeth, adeiladol a grymus a gweinidog gofalus a chwbl ymroddedig.

Dros y blynyddoedd llanwodd E. H. Griffiths amryw swyddi gweinyddol yn Nhaleithiau Cymraeg yr Eglwys Fethodistaidd a chynrychiolodd yr enwad ar nifer of byllgorau cydenwadol pwysig, gan gynnwys Cydbwyllgor Cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg (y corff a arolygodd y gwaith o baratoi a chyhoeddi *Y Beibl Cymraeg Newydd*, 1988) a Phwyllgor Cyffredinol (a hefyd Pwyllgor Golygyddol) a fu'n gyfrifol am lunio'r llyfr emynau cydenwadol *Caneuon Ffydd* (2001). Yr oedd ei gyfraniadau i'r pwyllgorau hyn bob amser yn ddoeth, cytbwys a gwerthfawr.

Trwy gydol ei yrfa – gan gynnwys blynyddoedd ei 'ymddeoliad' ers 1985 – parhaodd E. H. Griffiths yn weithiwr diarbed ac yn fyfyrwr diwyd, nid yn unig yn y meysydd beiblaidd a diwinyddol ond hefyd ym meysydd hanes a llenyddiaeth, yn enwedig hanes Cymru a llenyddiaeth Gymraeg. Cyfrannodd yn helaeth o ffrwyth ei fyfyrddod a'i ymchwil mewn ysgrifau a chyfrolau darllenadwy a gwerthfawr. Bu am gyfnod yn Olygydd *Y Gwyllydd Newydd* (wythnosolyn ei enwad) a chyfrannodd yn gyson dros y blynyddoedd i'r cyhoeddiad hwnnw a chyhoeddiadau mwy swmpus yr Eglwys Fethodistaidd, sef *Yr Eurgrawn a Bathafarn*

(cylchgrawn Cymdeithas Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru). Yn Saesneg cyfrannodd erthyglau ar amryw enwogion o blith Wesleaeth Gymraeg i'r cyhoeddiad diweddar *A Dictionary of Methodism in Great Britain and Ireland* (gol. John A. Vickers, 2000).

Ar faes ehangach na hanes ei enwad ei hun a'i henwogion, daeth E. H. Griffiths yn adnabyddus trwy Gymru'n gyffredinol fel awdur a chyfieithydd. Cyfieithodd a chyhoeddi nifer o destunau poblogaidd o werth a diddordeb crefyddol a hanesyddol o'r Saesneg i'r Gymraeg. Y mae ei esboniad ar Lyfr Daniel ac Efengyl Marc, dan y teitl *Neges i'r Oes ac Efengyl i'r Oesoedd* (Caernarfon, 1987, tt.232) yn llawlyfr a fu o werth mawr nid yn unig i ddosbarthiadau uchaf Ysgolion Sul yr holl Eglwysi ond hefyd i fyfyrwyr beiblaidd mewn ysgolion, colegau diwinyddol a phrifysgol. Cyhoeddodd hefyd gofiannau pwysig i ddau o Gymry amlwg yr ugeinfed ganrif, sef D. R. Hughes (*Bywyd a Gwaith D. R. Hughes*, Caernarfon, 1965, tt.164) a George M. Ll.

Davies mewn dwy gyfrol (I. *Heddychwr Mawr Cymru*, Caernarfon, 1967, tt.167; II. *Seraff yr Efengyl Seml*, Caernarfon, 1968, tt.226). Disgrifiwyd y ddwy gyfrol gan Dr Brynley Richards fel 'cofiant safonol ... dogfen o bwys i haneswyr ac eraill a gais ddod i adnabod un elfen yn hinsawdd blynyddoedd cyntaf y ganrif hon [sef yr ugeinfed ganrif]'; ac mewn trafodaeth ar Davies yn ei gyfrol *Heddychiaeth Gristnogol yng Nghymru* (1991) dywaid Dr Gwynfor Evans: 'Bellach diogelwyd hanes bywyd yr heddychwr mwyaf a welodd Cymru yng nghofiant mawr E. H. Griffiths'.

Gwelir agwedd bwysig arall i ddoniau llenyddol E. H. Griffiths yn y nifer helaeth o gyfieithiadau penigamp a luniodd o emynau Saesneg poblogaidd – cyfieithiadau sydd erbyn hyn wedi hen ennill eu lle yn y traddodiad emynyddol Cymraeg: prawf o hyn yw bod chwech ohonynt wedi eu cynnwys yn *Caneuon Ffydd*.

Gan gredu bod ei gyfraniad cyfoethog ac amlochrog i grefydd hanes a llenyddiaeth Cymru yn llawn deilyngu ei gydnabod gan Brifysgol y genedl enwebwyd E. H. Griffiths am radd Athro yn y Celfyddydau (MA) er Anrhydedd. Cefnogwyd yr enwebiad gan y Parchg Dr Owen E. Evans, Dr Glyn Tegai Hughes, y Parchg Athro Gwilym H. Jones, y Parchg John Gwilym Jones, Dr J. Lionel Madden, Mr Trefor M. Owen, Dr Brynley F. Roberts, y Parchg E. ap Nefydd Roberts, yr Athro J. Gwynn Williams a Miss Menai Williams.

OWEN E. EVANS



DYDDIAU COLEG

Rhai blynyddoedd yn ôl benthycodd y Parch. E. H. Griffiths imi bapur yn cynnwys nodiadau yr oedd wedi'u hysgrifennu ar gyfer sgwrs am ei gyfnod yng Ngholeg Handsworth, Birmingham.

Gyda'i ganiatâd gwneuthum gopi teipiedig ohono cyn ei ddychwelyd iddo.

Mae'n disgrifio bywyd myfyriwr o Gymru mewn coleg diwinyddol Methodistiaidd yn Lloegr yn y cyfnod 1939-43.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'w weddw, Mrs Olwen Griffiths, am ganiatâd i'w gyhoeddi yma.

Gan mai nodiadau ar gyfer sgwrs sydd yn y papur gwneuthum ychydig o waith golygu cyn ei gyhoeddi.

Wrth ei ddarllen mae'n bwysig cofio iddo gael ei ysgrifennu yn 1946; felly, pan mae'n cyfeirio at y bresennol mae'n sôn am ganol y 1940au. – *Lionel Madden*

Y COLEG

Bûm yng Ngholeg Handsworth o Fedi 1939 hyd 1943, pedair blynedd o ryfel, ysywaeth. Agorwyd y coleg yn 1881. Ef oedd yr olaf o'r pedwar coleg cyfundebol, sef Didsbury, Manceinion (1842), Richmond, Llundain (1843), Headingley, Leeds (1868) ac yn olaf Handsworth, Birmingham (1881). Ond y mae adnod, onid oes, 'y rhai olaf a fyddant yn flaenaf', a gwir yw y gair yn y cyswllt hwn a buddiol i'w gofio. Erbyn hyn (1946), wrth gwrs, y mae pum coleg. Daeth Coleg Hartley Victoria, Manceinion yn eiddo i'r cyfundeb yn yr undeb yn 1932; Coleg y Primitive Methodists oedd ef cyn hynny. Ac mae Wesley House yng Nghaergrawnt.

Beth am eu cyflwr heddiw? Didsbury wedi cau, i agor ym Mryste ar ôl y rhyfel (1945). Mae Richmond a Hartley Victoria wedi cael peth difrod; Richmond wedi cael yn arbennig. Mae Headingley yn llawn o Wrens. O leiaf yr oedd felly pan oeddwn i fyny yno ym mis Gorffennaf diwethaf. Am Handsworth, yr oedd hwnnw yn llawn o 'Home Guards' a phobl eraill pan oeddwn i fyny ym mis Awst. Roedd cyflwr y coleg yn wahanol iawn i eiddo Headingley a'i Wrens. Gellid ysgrifennu 'Ichabod' ar ddrws prif fynedfa'r coleg.

Fel adeilad yr oedd Handsworth yn hwylus iawn. Nid âf i fanylu, dim ond dweud fod patrwm y coleg ar lun y llythyren 'E' gyda thair coridor hir ac un fechan yn y canol. Roedd Capel hardd newydd gydag organ bib wych ynddo, Prif Neuadd Ddarlith Gyhoeddus gyda phump o ystafelloedd darlith, Llyfrgell fawr urddasol, ac Ystafell Gyffredin gyffordus iawn. Yr oedd gan bob efrydydd ei ystafell ('den') ei hun ar lawr a'i ystafell wely un union uwchben. Roedd cae pêldroed, cyrtiau tennis, maes criced, cyrtiau racedi ('raquets'), gardd fawr a pherllan, a thŵr gyda grisiau troellog (spiral), oddeutu 150 ohonynt i gyd. O flaen a thu cefn i'r coleg yr oedd ffordd a bws hwylus i'r dref.

BYWYD Y COLEG

Dyma fraslun o amserlen diwrnod cyffredin. Am saith o'r gloch y bore byddai'r 'morning monitor' yn cerdded ar hyd y tair coridor hir iawn yn canu cloch nerth ei freichiau a bloeddio 'First bell going', 'First bell going'. Medraf ei chlywed hi'n nŵan yn tincial yn fy nghlustiau. Saith o'r gloch y byddai'r 'Reveille' yn mynd ac wyddoch chi beth, roedd yna rai mor ddigydwylbod â chodi gyda'r gloch gyntaf, yn enwedig rhai o'r 'freshers', neu'r 'rams' fel y'i gelwid am y tro cyntaf. Yn wir yr oedd rhai mor ddigydwylbod â chodi o flaen y Reveille, yn enwedig o flaen arholiad; yn wir, nid âi rhai i'w gwelyau y pryd hynny. Ond yr oedd dyn yn callio wrth gynefino. Ni ddisgwylid i'r gloch gyntaf wneud mwy na chyffroi dyn o wlad hud a lledrith a pheri iddo gymryd y tro diwethaf yn ei wely. Yn wir, byddai monitor profiadol yn mynd yn ei ôl i'w wely am chwarter awr ac yna yn

dod wedyn oddiamgylch drachefn gan guro'r drws gyda nobyn mawr a chrochlefaen nerth esgyrn ei ben: 'Half an hour to breakfast - everybody rise'. Yna deuai drachefn am 7.30 ac os na fyddai eich drws yn agored roedd ganddo hawl i lusgo chwi trwy drais allan o'ch gwely yn bendramwngwl. Wrth gwrs, pan fyddai'r monitor ei hun yn cysgu'n hwyr clywech ef yn dod y waith gyntaf yn bloeddio 'half an hour to breakfast' ac yna mewn pum munud yn dod gan waeddi '15 minutes to breakfast'. A'r syndod ydyw mor gyflym y gallai'r hogiau ymbaratoi yn y bore. Roedd y ddawn o brysuero yn cael ei pherffeithio o nerth i nerth, ac y mae hynny wedi bod yn fendith imi erbyn heddiw. Er enghraifft, roedd sbring ar ddrws yr ystafell ymolchi ar bob coridor ac roedd Harry Hicks yn honni y gallai fo ddod ar garlam iddi a rhyw lun o folchi a rhuthro allan cyn i sbring y drws gau, a sychu ei hunan ar ei ffordd i'r 'den'.

Roedd yn bwysig i chwi fod yn yr ystafell fwyta i frecwast erbyn 7.45 ac os byddech yn hwyr byddai'n rhaid i chwi fynd trw'r drws pellaf ac heibio cadair y 'Resident Tutor', sef y Dr Henry Bett (neu Uncle Henry fel yr adwaenid ef gan yr hogiau), mynd heibio ac ymddiheuro. Yr hyn ddwedai fo y tro cyntaf yn ei ffordd dadol neu yn ei ffordd deidaidd daranlyd oedd 'It's alright old man – don't let it happen again'. Ond os byddai rhyw anffawd yn digwydd y bore wedyn (styd yn torri, dyweder, crib yn mynnu cuddio'i hun, neu carrai yn malu cyn yr amser) byddai'n ddrwg, a phob tro y byddai un yn hwyr roedd yn rhaid iddo roddi ceiniog yn y blwch cenhadol ac yr oedd rhai yn talu tair ceiniog a grôt bob wythnos heb sôn am dalu ceiniog am bob 'pun' a stori ddirgrif a adroddai. Cofiaf un bore pan oedd yr holl goleg bron yn hwyr yn codi, ac Uncle Henry yn lloerig. Yr oeddwn i yn digwydd bod y bore hwnnw yn gynnar, neu o leiaf yn llai diweddar na'r mwyafrif, ac wedi iddynt ddod i mewn, er ei fod yn basiffist mawr, dyma darannu fel y gallai Uncle Henry: 'I won't have it'. Roedd pawb yn ei le y bore wedyn.

Brecwast chwarter i wyth: uwd bob bore, cig moch, marmalêd. Busnes, cyhoeddiadau a llythyrau wedi brecwast, a phawb yn awyddus iawn wrth gwrs am lythyr oddi cartref ac o leoedd eraill mae'n ddiau. Swydd babi'r coleg oedd swydd y postman.

Yna 'Morning Prayers' yn y capel am 8.25; yr athrawon (y 'Tutors') yn cymryd rheini yn eu tro. Yna darlithoedd rhwng 8.45 ac 11, ac yna saib bach i gael paned o de. Ond ni ddarparai'r coleg dim ond dŵr a llaeth; rhaid oedd rhagofalu am y te a'r siwgwr a bisgedi ein hunain, ac yn naturiol byddai cais ac apêl yn mynd adref yn aml am deisen neu rywbeth y gellid ei hebgor. Cofiwch mai 2/- yr wythnos yr oeddem ni'n gael o bres poced y flwyddyn gyntaf, 3/- yr ail, a 5/- i batriarchiaid y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn. Ond y ffordd allan o'r anawsterau oedd ffurfio 'firms' bach ymhlith ein gilydd, pedwar neu bump mewn 'firm', ac felly rhannu popeth a ddeuai

i mewn gyda'r llongau. A choeliwch chwi byth fel yr oedd cacen o Bant Teg yn mynd ymhellach o lawer o'i rhannu â dau arall, a'u cyfraniad hwythau yr un fath. Comiwnistiaeth yr eglwys fore oedd yr arfer a phopeth gennym yn gyffredin, yn gyffredin canweithiau.

Darlithoedd wedyn o 11.15 hyd 1: darlithoedd mewn Diwinyddiaeth, Athroniaeth, Athrawiaeth, Hanes, Seicoleg, Groeg a Hebraeg etc. Am 1.15 byddai cinio. Yn y prynhawniau roedd gwahanol fathau o gyfarfodydd, neu waith yn y gwahanol 'mission bands'. Byddai'r efrydwyr yn cael eu rhannu i nifer o ddosbarthiadau a byddai dosbarth o chwech neu saith dan esgob etholedig yn gyfrifol am fuddiannau eglwys gyfagos. I Mission Band Swan Village, West Bromwich y perthynwn i, heblaw y gwaith Cymraeg y byddwn yn ei wneud fel ciwrad dan esgob arall am y flwyddyn gyntaf ac fel esgob fy hunan am dair blynedd, yn gyfrifol am eglwys Cymraeg Central Hall Birmingham a Derby.

Pan na fyddai dim arbennig yn y prynhawniau yna chwaraeid pêldroed, neu hoci, neu tennis, neu racedi etc, drama a'r sinema. Te am bump, os te y gelwch chwi de a bara a menyn. Gwaith wedyn o hynny ymlaen hyd 8. Cloch wedyn ac 'Evening Prayers' am 8 a gynhelid gan yr efrydwyr yn eu tro, ac wedi hynny swper, hwnnw yn ddigon amheus yn aml. Hwyl a sbri am ychydig ar ôl swper. Roedd business 'tables' ar ôl prydiau yn fater cymhleth. Roedd y monitor yr wythnos yn gadeirydd, ac yr oedd 'constitution', sef corff cymhleth o ddeddfau megis cyfansoddiad Senedd yn y Tŷ Gwyn yn America. Yr oedd yn rhaid cael popeth mewn trefn, a'r hogiau am eu gorau glas yn ceisio drysu monitor gyda chynigion, awgrymiadau a gwelliannau ar draws ei gilydd, ac yn llwyddo i wneud hynny gyda'r 'rams' ofnus oedd yn eistedd yn y gadair. Yr unig waredigaeth a'r unig gysur oedd bod hawl gan y cadeirydd apelio at Ysgrifennydd y Coleg am help allan o'r drysni pan roedd y niwl wedi cau amdano.

Wedi swper gwaith gan amlaf hyd 11 o'r gloch. Dyna'r amser noswyl traddodiadol a chyn y rhyfel. Byddai'r goleuadau i gyd yn mynd allan ond gofalai'r myfyrwyr am ganhwyllau a lampau paraffin etc., oherwydd yn aml iawn byddai'n rhaid cael traethawd i Lofty erbyn trannoeth neu baratoi ar gyfer arholiad neu gyfansoddi pregeth, neu ambell dro byddai chwildroad a ffrwgwd ymhlith y flwyddyn gyntaf a'r ail, neu'r gyntaf a'r drydedd yn uno yn erbyn yr ail, ac ychydig o lonyddwch a heddwch a chysgu y câi neb ar noson gynhyrfus felly. Roedd y goleuadau i gyd yn mynd allan yn 1939-40 ond y 'front corridor'.

Dyna sampl o ddiwrnod cyffredin, oherwydd byddai rhai dyddiau cyffredin anghyffredin. Beth am fwyd y coleg? Wel, roedd hwnnw yn burion mae'n debyg yn ei ffordd ond ein bod yn cael syrffed ar yr un peth – afalau, afalau ac afalau drachefn, rwbob, rwbob a rwbod drachefn. Tatws i frecwast, tatws i ginio, tatws i de, tatws i swper, ac os byddwn yn cael hunllef gwelwn ddyn yn gwthio tatws i lawr fy ngwddf. Spaghetti a spaghetti a spaghetti drachefn; mor sicr ac y byddai spaghetti yn mynd yn ôl i'r gegin deauai'n ôl wedi ei weddnewid (llawer dull a modd o 'camouflage'). Yn wir, aeth pethau mor ddrwg un tro nes roedd chwildroad cyffredinol yn y babel ('sit down strike') a bu hynny'n foddion i argyhoeddi'r matron nad oedd yr hogiau yn rhyw hoff iawn o spaghetti ac na phryderai'r hogiau pe rhoddid y 'speciality' yn bresant yn ôl i'r Duce (Mussolini) ar ei benblwydd.

Achos arall oedd bob amser yn cynnwys iddo'i hun bosibilrwydd chwildroad oedd mater tân. Tri pheth mawr yr efrydydd yw bwyd da, tân a lonyddwch. Dau fwceded o lo a ganiateid bob wythnos ac nid oedd dim tân i gael un amser cyn mis Hydref (aeth yn Dachwedd un flwyddyn) nes bod yr

hogiau yn rhynnu yn yr Ystafelloedd Darlithio ac fel protest aethant i mewn hyd yn oed i ddarlithoedd Lofty y Prifathro – ac yr oedd gan bob un ofn Lofty yn ei galon (y 'Lofty phobia') – yn un haid mewn gynau lloft. Mynd dros y top megis i ganol y frwydr â Goliath, ond roedd Goliath mewn hwyl Philistaidd y bore hwnnw, ac nid Goliath a gafodd y gwaethaf o'r sgarmes.

Cofiaf brotest arall yng nghanol gaeaf yn erbyn prinder clydwch yn y gwely. Apêl daer am gynfas ychwanegol i gadw allan rhew y gaeaf yn y nos, a chlap neu ddau o lo i wrthsefyll hin gerwin gaeaf yn ystod y dydd. Dyma'r ffordd chwildroadol o gael pethau: rhyw blaid lafur yn herio'r awdurdodau ceidwadol pan fethai awgrymiadau bachog ac argyhoeddi'r awdurdodau o'r priodoldeb o wrando ar ein cais. Un ffordd o wneud i'r dogni glo ymestyn oedd mynd i fyw am ddeuddydd gyda'r 'firm', ac yna gwahodd eich 'firm' i fyw efo chwithau – Comiwnyddiaeth eto.

Dyna'r bywyd bob dydd. Ar ddydd Sadwrn yr oeddech yn rhydd ar ôl un o'r gloch. Oriau hamdden yn y prynhawn. Byddai'n rhaid i chwi gael caniatâd arbennig gan y 'Resident Tutor' i fod allan noson o'r wythnos. Ni fyddai hynny yn anodd ei gael gan Uncle Henry ond yr oedd cael caniatâd gan Dr Lofthouse yn orchest ddychrynlyd.

ATHRAWON Y COLEG

Roedd pump ar staff Coleg Handsworth. Roedd pedwar o'r pump wedi bod efo'i gilydd ar y staff am oddeutu 15-18 mlynedd ac wedi creu traddodiad uchel tra chanmoladwy. Tri ohonynt wedi bod yn Llywydd y Gynhadledd. Yr oedd y pedwar ohonynt yn cael eu hystyried ymhlith y blaenaf o ysgolheigion Prydain Fawr yn eu meysydd; yn wir, nid gormod yw dweud eu bod ymhlith y rheng flaenaf yn Ewrop yn eu pethau. Roedd Dr Lofthouse, er enghraifft, cyn y rhyfel yn mynd drosodd am benwythnos i'r Almaen i ymgynghori â phrif ysgolheigion yr Almaen ac yn dod yn ôl i ddarlithio mewn pryd.

Dr Lofthouse

Mae 'Lofty' yn destun diwaelod, anhysbyddadwy. Gŵr tal, llawn egni. Roedd traddodiad nad oedd yn mynd i'w wely. Gweithiai yn llethol a threthai ar bawb arall yn ddiwahân. Yr oedd ef yn Assistant Tutor yn amser y Parch. J. Lloyd Jones, ond erbyn 1939 efo oedd yn llywodraethu pob dim. 'The genial old tyrant' oedd barn yr hogiau amdano, neu 'The great dictator'. Ai cyfiawn talu teyrnged i Cesar? meddai rhyw bobl. Doedd dim dewis yn Handsworth. Yr oedd yn garedig ac yn gyfiawn ond yn drwm iawn ei dreth. Nid oedd yn trugarhau wrtho ei hun nac yn trugarhau wrth neb arall. Dyma i chwi enghraifft. Yn y flwyddyn gyntaf, ar y Sulgwyn roedd pawb yn cymryd yn ganiataol bod y dydd Llun yn ddiwrnod o wyliau ac aeth rhai o'r hogiau yn ddiniwed iawn i chwarae tennis. Ond och! ac wele Lofty ar parade gyda'i lyfr bach nodiadau yn cofnodi enwau pob un ar y cwrt. A dyma alw pob un o'r cwrt tennis i gwrnt-marsial a Lofty yn 'Gadarsial'. Y Sul hwnnw yr oeddwn yn pregethu ar gylchdaith Lerpwl a'r dydd Gwener cynt gofynnais i Lofty a gawn fy esgusodi o ddsbarth arbennig ar ôl swper y nos Lun dilynol, nos Sul y Sulgwyn, fel y gallwn weld fy chwaer oedd yn gweini yn Wallasey ar y pryd. Dydw i ddim yn gwybod sut y cefais y gwroldeb i wneud, ond tasai well imi beidio. Mi ddechreuodd arni fel bwrlwm diflino, fel llef taranfawl, fel dilyw di-ildio. Ac yr oedd ei ddanedd gosod yn rhyddion ac yr oedd yr rheini yn gwneud sŵn diflas fel 'machine gun' yn clacio: 'Oh, my dear Mr Griffiths, I haven't seen my sister for six months. What right have you to imagine that it was a holiday? Indeed not.' Yr oeddech yn teimlo eich bod dan x-ray bob tro y byddech chwi yno, yn teimlo fel cwnigen o flaen branwen, neu ddryw bach eiddil dan bawed y barcud. Mae'r peth yn

chwerthynllyd, mewn ffordd o siarad. Anodd yw ichwi ddychmygu dynion mawr, cyhyrog fel Harry Hicks (ffermwr o Sir Efrog), Ross Forward (plismon y coleg) a Harry Tennant (clamp o Sgotsman) fel rhai hyn ag ofn Lofty yn eu calon.

Yr oedd gwybodaeth a phrofiad dwfn ac eang Lofty yn aruthrol. Gallaf fentro dweud mai ef yw'r dyn mwyaf gwybodus a gwrddais erioed. Darlithio ar arluniaeth, llenyddiaeth, cerddoriaeth etc. etc. Ieithoedd bobl; gydag un iaith yn unig y cafodd ei drechu, er iddo geisio'n deg dengwaith, meddai ef wrthyf, a'r Gymraeg oedd honno. Yr oedd ganddo lawer o eiriau Cymraeg, ac yr oedd yn gwybod llawer am Gymru a'i phobl, a chanddo ddiddordeb yng Nghymru.

Lle bynnag y byddai Lofty nid oedd angen dethol cadeirydd; mi fyddai Lofty yn dethol ei hun. Am falu, malu siarad a malu awyr doedd mo'i ail. Doedd dim eisiau i neb ddweud dim bron ond gofyn rhyw gwestiwn (rhoddi'r ceiniog yn y slot, megis) a dyma'r 'machine gun' yn dechrau.

Dyna Lofty. Gyda llaw, yr ydym yn parhau yn ffrindiau ac yn cyfathrachu yn gyson. Cefais lythyr ganddo i'm croesawu i'r gylchdaith newydd ac yr oeddwn innau yn ysgrifennu ato yr wythnos olaf. Mae'n cadw mewn cysylltiad â'r holl hogiau er ei fod wedi ymddiswyddo ers 1940.

Dr Henry Bett

'Uncle Henry', y 'Resident Tutor'. Roedd gwahaniaeth mawr rhwng y ddau. Roedd Nwncl yn fwy dynol a thirion. 'Ein tad ni oll' oedd ef, neu yn fwy o daid nac o dad efallai. Yr oedd yntau yn alluog iawn yn ei feysydd, fel ysgolhaidd mewn Liên a Hanes, ac yn Fethodist i'r carn, ac yn bregethwr grymus iawn – anhraethol well bregethwr na Lofty. Gallai Lofty ddarlithio am bregethu ac ar bregethwyr ond y farn gyffredinol oedd nad oedd ef yn 'gethwr, ond roedd Uncle Henry yn bregethwr.

Wyddoch chwi beth oedd rhai o'i ddiddordebau fo? Chwedlau plant (fairy tales), chwarae rummy neu bagatelle neu croesair. Gŵr hynod fawr oedd Henry ac yn heddychwr pybyr. Roedd Dr Lofthouse, Dr Howard a Mr G. R. North yn filitaraidd eu gwelediad, ond safai Nwncl mor gadarn â'r graig dros ei argyhoeddiadau. Un bore yn y capel ceid gweddi a darllen militaraidd tanbaid gan Lofty a'r bore nesaf un i'r gwrthwyneb. Argyhoeddodd hyn fi mai nid mater syml i'w setlo ar foment yw cwestiwn rhyfel a heddwch. Os oedd dau ŵr mor fawr a galluog yn gwahaniaethu, pwy ydym ni gorachod bach i gollfarnu neb am ei farn?

Un bore, wedi tamaid go helaeth a hael o filitariaeth gan Lofty, gofynnodd Uncle Henry yn ei ffordd gartrefol ei hun wrth y myfyriwr ar ddyletswydd fel porthor, neu stiward y capel: 'When are you going to join up old man?'

Dr W. F. Howard

Gellid mynd ato i ofyn cymwynas: 'Don't tell the Principal!' Efo yw Llywydd y Gynhadledd eleni. Gallwn ddweud llawer iawn amdano canys daethom i gyfathrach nes ag ef nag â'r un o'r lleill yn ystod y tair blynedd diwethaf o'r coleg. Yn fy mlwyddyn gyntaf (1939) yr oedd oddeutu 55 yn y coleg. Yn 1940 ni chaniatawyd i neb fynd yn ôl ond a ddechreuasai ar gwrs yn y brifysgol, a theulu bach o saith dechreuodd y daith ar yr ail flwyddyn. Collais y Cymry. Collais y 'firm'. Dechrau yn deulu o saith: un o Middlesbrough, un o ganol Sir Efrog, un o Derby, un o Lundain, un o Leeds ac un annhymig megis o bentref digon di-sôn amdano o Gymru, a Dr Howard yn benteulu arnom. Roedd Dr Lofthouse ar ôl ei ymddiswyddiad yn dod atom bob wythnos o Woodstock, Rhydychen i ddarlithio i ni ond Dr Howard oedd gyda ni bob amser.

Tybiaswn yn y flwyddyn gyntaf mai braidd yn bellenig o ysgolheigaidd oedd Dr Howard, a mwy o ddiddordeb yn Homer nac mewn Homo, neu ddyn a'i broblemau – ond

cawsom gyfle i'w adnabod ar ei aelwyd, a dyna'r lle i adnabod dyn. Bu ei dŷ yn gartref inni a'i wraig yn fam dda wrthym ni. Tua'r amser yma bob blwyddyn roeddem yn cael Parti Nadolig er gwaethaf y rhyfel. Yn wir, yr oeddwn yn synnu bod Mrs Howard yn gallu gwneud cymaint erom. Ar ôl y parti byddai gemau ac yr oedd gweld Dr W. F. Howard, un o brif ysgolheigion Ewrop heddiw yn Groeg y Testament Newydd, yn ymgolli mewn gemau ac ar ei liniau ar y mat yn chwilio am drysorau cuddiedig yn foddion i'n closio'n fwy at ein gilydd nag erioed. Byddaf yn meddwl bod a wnelo'r ffaith bod ganddo bedwar o blant ei hun (tri wedi tyfu i fyny) llawer i gyfrif am ei ddynoliaeth gref a'i galon fawr. Gŵr union saeth, llawn direidi, ochrai gyda ni yn erbyn Lofty.

C. R. North a Raymond George

Ni wnaef ond crybwyll yn fyr a brysiog am y ddau arall. Ni ddeuthum i'w hadnabod hwy mor dda. Aethant hwythau i'w ffordd eu hun yn 1940, Mr C. R. North MA i Leeds a Mr Raymond George MA i Manceinion. Mr North yw un o'r ysgolheigion Hebreig pennaf yn Ewrop ac wedi ei sychu i fyny gan y llawysgrifau sychion nes bod golwg Hebreig arno. Mr Raymond George, druan, yn gorfod byw megis rhwng y staff a'r myfyriwr, ac felly yn cael hanes y naill gan y llall. Dolen gydiol, Swyddog Gyswllt, neu 'buffer state' os mynnwch.

MYFYRWYR AC ARFERION Y COLEG

Un arfer oedd rhoi derbyniad tost i'r efrydwy'r newydd. 'Freshers' meddai Bangor amdanynt ond 'Rams' oedd yr enw yn Handsworth. Yr oeddych yn 'Rams' am chwech wythnos, ac nid oeddych yn aelodau o'r coleg ond gweision isel y brodyr parchedig. Rhaid oedd wrth fedydd dŵr a thân fel eiddo loan Fedyddiwr, ac nid ryw fedydd arwynebol ond bedydd trwy drochiad. At hynny, roedd pethau angenrheidiol dyn cyn y gall ymddangos yn gyhoeddus yn mynd ar goll. Roedd yn rhaid i bawb ysgrifennu 'thesis' ar destun gosodedig a chael ei gapio gyda rhwysg a grym, a mwy o rym nac o rwysg. Y testun a gefais i oedd 'Twinkle, twinkle etc.' Yna rhaid oedd rhoi 'speech' fawr gyhoeddus ar destun smala ar y pryd a chanu solo mezzo soprano pe bai'r ddawn gerddorol ym meddiant un neu beidio. At hynny, roedd creadur arall – un o'r 'fourth years' yn paradio am chwech wythnos fel 'tutor' mewn gown a choler, a byddai'n rhaid moesyngrymu a syrio hwnnw a llu o brofiadau dychrynlyd canol nos.

Defod arall oedd rhannu'r coleg yn ddwy gymdeithas, y Gymdeithas Garwraethol a'r Gymdeithas Henlancyddol – the Matrimonial Society and the Celibate Society – ac i'r ddwy gymdeithas ei llywydd a byddai'n rhaid apelio am ymaelodi ag un o'r ddwy wrth fynd i mewn i'r coleg a rhoi gair o eglurhad ar gyflwr pethau. Roedd rhai yn symud o'r naill i'r llall yn fynych iawn. Roedd i'r Gymdeithas Garwraethol ddwy ran, sef y cylch allanol a'r cylch mewnol. Yr oedd rhywun oedd yn rhyw gyfeillgaru yn cael perthyn i'r cylch allanol, ond ni chai neb sangu ar diriogaeth gysygreddig y cylch mewnol heb ddyweddio. Enw'r gymdeithas hon arni ei hun oedd 'Cymdeithas y Goleuni' a'i henw ar y gymdeithas henlancyddol oedd 'y tywyllwch eithaf' ('the outer darkness'). Ond cefais i'r anrhydedd o fod yn llywydd y gymdeithas barchus hon ac yr oedd gennyf 'insignia of office', sef darlun o John Wesley wedi ei amgylchynu â 'film stars' a llyfr gydag enwau holl lywyddion y Gymdeithas Henlancyddol ynddo. Gyda llaw sylwais fod un wedi bod yn llywydd y Gymdeithas am bythefnos yn unig nes collodd ei galon i fenyw fwyn yn rhywle a cholli'r gadair urddasol yr un pryd.

Un ddefod ddigrif eto. Ar brynghawn Sadwrn byddai hawl i'r brodyr gael rhywun i mewn i de, a dyna gyfle i gael hwyl ar eu

pen. Byddai'r 'College Angel' yn hel tyrfa a mynd i ganu hen rigwm traddodiadol a churo a dyrnu ar y drws a chadw cymaint o sŵn ag yr oedd modd, trwy ganu: 'There are angels hovering round to carry the tidings home...' ac yn y blaen. Yna roedd gan yr angel hawl i agor y drws a gofyn: 'Is this the girl he had last week?' a'r dyrfa yn ateb 'No', a chael eu cyflwyno i'r ferch ifanc.

Ond nid defodau gwirion disail yn unig oedd yn Handsworth. Yr oedd rhai cysegredig iawn. Er enghraifft, roedd gweddïau bore dydd Gwener yn cael eu neilltuo i gofio am y gwaith cenhadol. Roedd dydd tawel bob tymor. Roedd 'fellowship' yn cael ei gynnal bob nos Wener, rhywbeth fel ein seiat brofiad ni er talm. Bob bore Sadwrn darllenid y litani neu'r litwrgi. Ar brynhawn dydd Gwener cynhelid y Sacrament Sanctaidd yn gofiadwy o ddwys ac urddasol, a'r Cymun ar fore dydd lau y Dyrchafael am saith o'r gloch y bore. Byddai'n rhaid pregethu yn Saesneg o flaen y staff a'r coleg a'ch barnu yn gyhoeddus ar fore ddydd Sadwrn. Ar ddiwrnod olaf y tymor byddai parêd carolau a chnocio'r athrawon i fyny yn yr oriau mân. Ond ni byddai angen cnocio Lofy i fyny; doedd o ddim yn mynd i'w wely – o leiaf ni welodd neb ef pan nad oedd ar ei draed ac yn gwneud rhywbeth. Yna dringid i binicl y tŵr yn un dyrfa a chenid carolau yno yn oriau mân y bore. Clywaf yr atsain fythgofiadawy yn awr, ar frig y tŵr, bore dydd lau y Dyrchafael am 6 y bore, canu emyn Charles Wesley.

Defod arall oedd 'The Rolling Off' ceremony. Efrydydd yn gadael coleg am Gymru, am Loegr, am Tseina, am yr India, am yr Affric: cynhelid seremoni ddwys ddirifol. Gwneud dwy res yn y coridor a'r efrydydd gan ddechrau gyda'r tiwtor a chadeirydd y coleg, yna ei 'firm', ac yna ysgwyd llaw gyda phawb, a chanu emyn Charles Wesley a gysegrwyd i'r achlysur hwnnw yn unig ac i'r dôn *Canada*:

And let our bodies part
To different climes repair,
Inseparably joined in heart
The friends of Jesus are.

A'r dagrau yn powlio ar lygaid pawb. Yna gweddi afaelgar, rymus o gyflwyno'r cenhadwr i berchen y gwaith o flaen y prif fynedfa gan gadeirydd y coleg (efrydydd), ac anthem y coleg a'r 'yell' wrth i'r cenhadwr a'i 'firm' a'r cadeirydd a'r ysgrifennydd fynd i mewn i dacs i fynd i'r orsaf.

GWAITH Y SUL

Cefais waith Cymraeg bron i gyd yn y flwyddyn gyntaf, ond gwaith Cymraeg a Saesneg am y tair blynedd diwethaf. Yn y Central Hall, Birmingham a Derby roeddwn fynyachaf, unwaith bob mis. Ond roedd achosion Cymraeg eraill: pump arall yn Birmingham ei hun, achos yn Wolverhampton, Coventry, Sheffield. Hefyd gyda'r Saeson trwy barthau'r Black Country,



a'r argraff a gefais oedd nad oedd y Black Country ddim cyn ddued o lawer â llawer ran o Gymru, bod Black Country yn enw camarweiniol. Mae gennyf barch mawr at bobl y Black Country, bobl Walsall, Stourbridge, Bilston, Wednesbury, West Bromwich, Stafford, Newport, Tamworth, Burton a'r cylchoedd oddi amgylch.

Gallwn adrodd rai o'r troeon digrif a ddiwyddodd ar y Sul, megis hitchheicio un bore Sul o Birmingham i Burton on Trent, pellter o 30 milltir o ffordd mewn pump gwahanol gerbyd, a thro chwithig gyda Chymry Coventry ac yn y blaen – ac am y Gymun Eneiniog mwyaf eneiog fy mywyd mewn blitz yn Derby, a llu o bethau eraill.

DIWEDDGLO

Yn Lloegr deuthum i garu ac edmygu'r cyfundeb y perthynaf iddo. Y mae fy nyled i Handsworth yn anfesuroi. Yr oeddwn â'm bryd ar Fangor yn 1939 ond nid felly bu hi. Gyrrwyd fi yn ffodus yn Gymro o'r Cymry, yn arwynebol iawn fy mhrofiad, yn gul fy syniadau, yn rhagfarnllyd fy meddyliau, i ganol hanner cant o Saeson uniaeth. Dysgais i fod angen dysgu i fyw mewn cymdeithas, i roi a derbyn, derbyn a rhoi, chwerthin ar ben fy hun yn ogystal ag ar ben eraill. Ehangwyd gorwelion fy mywyd. Dyfnhawyd fy adnabyddiaeth o'r natur ddynol a'i angen yn y blitz. Er ein bod wedi colli llawer oherwydd y rhyfel oedd yn bod cynt i efrydwyr, enillasom llawer hefyd. Roedd fy amser yn y coleg yn rhoi sêl ar sylfaen ddiogel trwy dysgu fi i gydfyw, ehangu fy syniadau a chynyddu fy ngwybodaeth a phrofiad.

Mae'n werth bod yn alltud ambell dro
A mynd o Gymru fach ymhell –
A dod yn ôl i'r un hen fro
A dysgu caru Cymru'n well.

E. H. GRIFFITHS

BATHAFARN BACH

Rhif 5 – Haf 2015

© y cyfranwyr unigol

Cyhoeddwr:

Y Gymdeithas Hanes, Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd

Golygydd:

Dr Lionel Madden, Hafren, Cae'r Gog, Aberystwyth SY23 1ET
ffôn: 01970 617771 epost: madden.aber@btinternet.com

Cyhoeddir yn achlysurol i'w ddsbarthu gyda'r Gwyllyedydd

Argraffwyr: Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286 672018)

E. H. Griffiths, Cyfieithydd Emynau

Pan gyfarfu pwyllgor golygyddol *Caneuon Ffydd* rai misoedd wedi i'r gyfrol ymddangos yn 2001, roeddem bawb yn ymwybodol iawn o'r beirniadu a fu arni – beirniadu ar ei maint ac ar y dewis o emynau a thonau. Ac er disgwyl y byddai beirniadu, nid oedd yn hawdd synhwyro sut i ymateb, os yn wir y gallem ymateb. Ond codwyd calon pawb pan ddywedodd E.H. yn ei ffordd fonheddig arferol ei fod wedi clywed sylwadau gwerthfawrogol a bod cynulleidfaoedd wedi cael bendith o ganu ambell emyn ar dôn oedd yn wahanol i'r dôn a arferid ganddynt gynt. Nodweddiadol o'i raslonrwydd oedd ei bwyslais ar y cadarnhaol.

Mae'n debyg mai awydd tebyg oedd wrth wraidd ei waith cyfieithu ym myd yr emyn. Teimlai'n gryf y dylai cynulleidfaoedd Cymraeg fwynhau cyfoeth rhai emynau Saesneg clasurol a modern, yn enwedig felly rai oedd yn adnabyddus yn y traddodiad Wesleidd. Yn rhan o'i waith fel aelod o Banel Golygyddol *Caneuon Ffydd* paratôdd restr o gyfieithiadau o emynau Saesneg i'w hystyried gan y Panel, nifer ohonynt yn gyfieithiadau o glasuron Charles Wesley, gan gynnwys trosiad T. R. Jones, 'Clwydydd' o 'Come, O thou traveller unknown' ('Anhysbys deithydd, tyred di'), a sawl cyfieithiad o waith y Prifathro D. Eirwyn Morgan, megis 'Mynd rhagof yn dy enw wna' ('Forth in thy name, O Lord, I go'). Ond ei gyfraniad pennaf oedd darparu inni ei gyfieithiadau ei hun. Cyfrannodd yn helaeth at ein hemynyddiaeth ddiweddar trwy gyfieithu nifer o emynau, a byddai'r rhain yn ymddangos yn y wasg enwadol o dro i dro. Nid y chwech a welir yn *Caneuon Ffydd* yw'r unig gyfieithiadau o'i eiddo: cyhoeddwyd eraill ar dudalennau'r *Eurgrawn* a'r *Gwyllydydd* ac yng nghylchgronau enwadau eraill.

Y chwe chyfieithiad a geir yn *Caneuon Ffydd* yw:

- Hwn, hwn ydyw'r Duw (35)
- Mor fawr wyt ti (140)
- Y Crist yw fy Ngwaredwr (389)
- Ai gwir y gair (539)
- I Dduw bo'r gogoniant (563)
- O Ysbryd byw (597)

Caneuon Ffydd mae'n debyg yw'r casgliad cyntaf i gynnwys ei gyfieithiad o'r emyn 'This, this is the God we adore', sef 'Hwn, hwn ydyw'r Duw folwn ni' (rhif 35); daeth E.H. ar draws yr emyn Saesneg yn ystod ei gyfnod yn y coleg yn Handsworth, a soniai'n gynnes werthfawrogol fel y byddai'r Gynhadledd Fethodistaidd yn ei ganu gydag afiaith. Dyma ddatganiad cadarnhaol y byddai'n dda i gynulleidfaoedd bach a mawr ei arddel – mae'n fyr ac yn hawdd ei ganu. Gwelwyd tri o'r chwech yn yr *Atodiad* i *Lyfr Emynau a Thonau y Methodistaidd Calfinaidd a Wesleidd* a gyhoeddwyd yn 1985, sef 'Mor fawr wyt ti' (873 yn yr *Atodiad*), 'Y Crist yw fy Ngwaredwr' (881) ac 'I Dduw bo'r gogoniant' (879), ond yn achos yr olaf fe ddiwygiodd E.H. gryn dipyn arno cyn ei gyhoeddi eilwaith yn *Caneuon Ffydd*. Ymddangosodd y ddau arall, sef 'O Ysbryd byw' ac 'Ai gwir y gair', yn y llyfryn *Grym Mawl*, a gyhoeddwyd dan nawdd Cynghrair Efengylaidd Cymru yn 1991.

Nodweddir ei gyfieithiadau gan gywirdeb a chreffft ofalus. Chwiliai'n ddyfal am y gair cywir ac ni fodlonai ar drosi unwaith: byddai'n caboli ac yn mireinio ei waith, ac yn ei wella'n barhaus. Ef ei hun, nid y pwyllgor golygyddol, a fynnodd ei fod yn diwygio'r cyfieithiad 'I Dduw bo'r gogoniant' o'r fersiwn a welir yn yr *Atodiad* i'r ffurf a geir yn *Caneuon Ffydd*.

Un o'r cynharaf o'r cyfieithiadau adnabyddus yw ei drosiad o'r emyn Saesneg cyfarwydd, 'How great thou art' ('Mor fawr wyt ti'). Yn y llyfryn *The Story of 'How Great Thou Art'* a gyhoeddwyd yn 1958, edrydd Stuart K. Hine gefndir yr emyn, a ddaeth yn boblogaidd ym Mhrydain yn sgil ymgyrchoedd efengylaidd Billy Graham yn yr 1950au. Gwraidd yr emyn yw cerdd Swedeg gan Carl Gustaf Boberg; cyfieithwyd honno i'r Rwsieg, ac o'r Rwsieg i'r Saesneg gan Stuart K. Hine, a addasodd rywfaint ar yr emyn Rwsieg; mae'n debyg mai eiddo Hine ei hun yw pennill olaf y fersiwn Saesneg. Fersiwn Saesneg Stuart K. Hine yw sail emyn E. H. Griffiths, a ddaeth i amlygrwydd wedi iddo ymddangos yn *Netholiad* y ddau Gyfundeb Methodistaidd yn 1968–69 (er na chydabyddir yno mai E.H. yw'r cyfieithydd). Oddi yno y'i codwyd i'r *Atodiad*, gyda newid 'Cân f'enaidd i' ar ddechrau'r gytgan i 'Cân f'enaidd, cân', ar awgrym Gwilym R. Tilsley, i osgoi'r llafariad 'i' ar y nodyn uchel yn yr alaw. Dyma un o'i gyfieithiadau mwyaf llwyddiannus, sydd wedi sicrhau poblogrwydd yr emyn yn y Gymraeg.

Yn yr *Atodiad* hefyd y cyhoeddwyd ei drosiad o emyn Alfred H. Ackley, 'I serve a risen Saviour' ('Y Crist yw fy Ngwaredwr'): cofiaf i E.H. bwysu yng nghyfarfodydd pwyllgor yr *Atodiad* am emynau oedd â phwyslais cadarnhaol ar yr Iesu byw, gan mai dyma'r ffydd y dylid ei datgan yn ein cyfnod ni. Fe gofir i'r emyn Saesneg darddu o gwestiwn a holwyd i Alfred Ackley, 'Why should I worship a dead Jew?', ac mai ei ateb ef oedd y datganiad pendant, 'I serve a risen Saviour'. Yn yr un ffordd mae cyfieithiad E.H. yn cyfleu bywiogrwydd a phendanrwydd yr emyn gwreiddiol gyda'i gytgan orfoleddus, 'Mae'n fyw, mae'n fyw, mae Crist yn fyw yn awr' ('He lives, he lives, Christ Jesus lives today'), a hapus iawn yw ei drosiad o gwpled olaf y gytgan, 'You ask me how I know he lives? He lives within my heart': 'Os gofyn rwy, "Sut gwyddost ti?" Mae'n fyw'n fy nghalon i.'

Ymddangosodd ei drosiad hyfryd o emyn Bessie Porter Head, 'O Breath of Life, come sweeping through us' yn *Grym Mawl*, ac er nad emyn diweddar mohono (lluniwyd yr emyn Saesneg gwreiddiol yn 1920), mae E.H. yn rhoi rhyw daerni amserol cyfoes yn ei apêl, 'Bywha ni, Grist: mae'n sêl ar ddarfod' (y llinell gyfatebol yn Saesneg yw 'Revive us, Lord! Is zeal abating'). Yn y llinell agoriadol hefyd, y mae ei ddewis o'r gair 'dylifa' i gyfleu 'come sweeping' yn awgrymog, ac yn cyfleu symudiad llifeiriol yr Ysbryd yng nghalonau'r credinwyr. Dyma eto drosiad sy'n siarad â ni yn ein cyfnod.

Arwydd o'i awydd i berffeithio yw ei waith ar ddau emyn enwog iawn, sef 'To God be the glory' ('I Dduw bo'r gogoniant') ac un o anthemau mwyaf y Wesleaid, clasur Charles Wesley, 'And can it be' ('Ai gwir y gair'). Cyhoeddwyd 'I Dduw bo'r gogoniant' yn *Yr Eurgrawn*, cyf. 172, Gwanwyn 1980, yn y ffurf a welir arno yn yr *Atodiad* bum mlynedd yn ddiweddarach, gyda rhai mân newidiadau. Ond ni fynnai E.H. ei fodloni. Er awgrymu iddo fod rhai cynulleidfaoedd bellach wedi arfer â fersiwn yr *Atodiad*, teimlai nad oedd yn gwneud y tro, a rhaid oedd ei ddiwygio a'i ail-gyflwyno yn y ffurf a welir yn *Caneuon Ffydd*. Mae'r cyfieithiad yn gadarnach o'r herwydd. Cymharer y pennill cyntaf a'r gytgan yn y ddau fersiwn:

(1985)

I Dduw bo'r gogoniant! Mawr bethau a wnaeth!
cans carodd a rhoddodd ei Fab dros y caeth;
rhoes yntau ei fywyd yn lawn dros ein bai,
agorodd borth Bywyd i bawb yn ddi-lai.

Clod i Dduw! Clod i Dduw! Aed trwy'r ddaear ei leff!
Clod i Dduw! Clod i Dduw! Llawenhaed tyfa gref!
O dewch at Waredwr, trwy'r Mab at y Tad:
rhowch iddo'r gogoniant! Mawr bethau a wnaed!

(2001)

I Dduw bo'r gogoniant, fe wnaeth bethau mawr,
rhoi'i Fab o'i fawr gariad dros holl deulu'r llawr,
rhoi'i einioes yn lawn dros ein pechod a wnâi,
gan agor drws bywyd i bawb er eu bai.

Clod i Dduw! Clod i Dduw! Clywed daear ei leff!
Clod i Dduw! Clod i Dduw! Llawenhaed tyfa gref!
O dewch at yr Iesu, ein Harglwydd a'n Duw,
rhowch iddo'r gogoniant, drwy'r Iesu cawn fyw.

Yma mae ambell gyffyrddiad megis 'fe wnaeth bethau mawr'
yn lle 'mawr bethau a wnaeth' yn ystwytho'r mynegiant ac yn ei
wneud yn fwy cyfoes naturiol, ac y mae cwpled olaf y gyngan
yn fwy llwyddiannus o dipyn.

Yn yr un ffordd bu'n ymgodymu ag emyn mawr Charles
Wesley dros flynyddoedd lawer. Ceir cyfieithiad ganddo yn
Yr Eurgrawn, cyf. 169, Hydref 1977, sy'n bur wahanol i'r hyn a
gyhoeddwyd yn *Grym Mawl* yn 1991 a thrachefn yn *Caneuon
Ffydd* ddeng mlynedd yn ddiweddarach – ffrwyth myfyrdod
pellach dros y blynyddoedd. Mae'r fersiwn cynharach yn
adleisio'r trosiad tri phennill a welir yn *Llyfr Emynu* 1927 (rhif
312), 'Oes modd i mi, bechadur gwael / gael rhan yng ngwaed
fy Mhrynwr hael?' Dyma'r pennill cyntaf yn fersiynau 1977 ac
1991 / 2001:

(1977)

Oes modd i mi gael rhan yn loes
a gwerthfawr waed Gwaredwr hedd?
Ai f'achos i oedd poen y groes?
Ai fi fu'n erlid ef i'r bedd?
Rhyfeddol ras! pa fodd bu hi
i ti, fy Nuw, fy achub i?

(1991)

Ai gwir y gair fod elw i mi
yn aberth Crist a'i werthfawr loes?
A gollodd ef ei waed yn lli
dros un a'i gyrodd ef i'w groes?
Ei gariad tra rhyfeddol yw,
fy Nuw yn marw i mi gael byw.

(2001)

Ai gwir y gair fod elw i mi
yn aberth Crist a'i werthfawr loes?
A gollodd ef ei waed yn lli
dros un a'i gyrodd ef i'w groes?
Rhyfeddol ras: pa fodd, fy Nuw,
y buost farw i mi gael byw?

Sylwer bod y diwygiad a wnaed i'r cwpled olaf rhwng 1991 a
2001 ('Rhyfeddol ras' yn lle 'Ei gariad tra') yn gweddu'n well i
rithmau'r dôn 'Sagina'. Arwydd yw hyn eto o awydd E.H. i loywi
a chaboli a pherffeithio ei waith yn gyson.

Ceir hefyd gyfieithiadau eraill o'i eiddo nas cyhoeddwyd yn
y llyfrau emynau ond a ymddangosodd yn y wasg enwadol
dros y blynyddoedd, ac nid emynau'n unig. Yn *Cristion* 76
(Mai-Mehefin 1996), er enghraifft, ceir ganddo addasiad
Cymraeg o gerdd Saesneg a gyhoeddwyd mewn cylchgrawn
eglwys blwyf, 'Cwynfan yr Hen Eglwysreg'. Cyfieithodd hefyd
yr emyn 'At Calvary' ('Years I spent in vanity and pride') o waith
William R. Newell i dôn Daniel B. Towner (*Cristion* 23,

Gorffennaf-Awst 1987), ac mae'n siŵr fod ganddo gyf-
ieithiadau eraill na ddeuthum ar eu traws.

Onid mae'n werth sylwi ar ddau gyfieithiad o'i eiddo o
weithiau y Crynwr Americanaidd John Greenleaf Whittier. Yn
Yr Eurgrawn cyf. 171, Haf 1979, yr ymddangosodd ei drosiad
effeithiol o 'Who fathoms the eternal thought?', sef yr wyth
pennill fel y'u ceir yn y *Methodist Hymn Book* 1933, rhif 513.
Hyd y cofiaf, nid yw'r fersiwn Cymraeg wedi ymddangos mewn
unrhyw gasgliad o emynau nac yn y *Detholiad*, ac mae'n werth
ei ddyfynnu yn ei lawnder:

Pwy all amgyffred meddwl Duw,
gan sôn am drefn a llun?
Yr Iôr sy Dduw – nid rhaid i'r Iôr
wrth dila ddyfais dyn.

Ym mhenbleth poenus hyn o fyd,
dan ddilyw, storm a'u pla,
glŷn f'ysbryd gwan wrth gadarn graig –
mi wn fod Duw yn dda.

Am leisiau coll a gwenau cudd
yr aelwyd, hiraeth ddaw,
ond Duw a'u casglodd ato'i hun;
ni ellir cam o'i law.

Ni wn ba syndod sydd ymlaen
neu newydd ddaw i'm byd,
ond gwn mai gras fy Nuw yw sail
einioes ac angau 'nghyd.

Os gwan i ddiodeff newydd boen
yw 'nghnawd a'm hysbryd i,
y gorsen ysig ef nis tyr,
fe'i deil a'i nerthu hi.

Addefaf nad oes offrwm im
na gwaith yn brawf o'm ffydd;
ei gariad ef yw 'nghariad i –
a roes, fy nghalon rydd.

Safaf ar ddistaw lan nes cael
y dawel rwyf i'm llaw:
ni ddaw im niwed ganddo ef
ar fôr na'r glannau draw.

Ar bell ynnysoedd Duw ni wn
ble cwyd y palmwydd glas;
yn unig gwn na chrwydrf byth
o'i ofal nac o'i ras.

Emyn arall o waith Whittier yr aeth i'r afael ag ef – neu gerdd
yn hytrach, gan na fwriadwyd y geiriau erioed i fod yn emyn –
yw'r geiriau hynod boblogaidd, 'Dear Lord and Father of
mankind', sydd wedi cyrraedd y brig ymhlith cynulleidfaoedd
Saesneg eu hiaith, ond na fu ar gael i'r Cymry o gwbl, er i fwy
nag un geisio eu trosi i'r Gymraeg. Ymateb a wnaeth E.H. i gais
gan Mrs Peggy Evans-Jones, mam y Parchg Martin Evans-
Jones. Yn y *Gwyllydydd*, rhif 53, Mawrth 1992 ymddangosodd
llythyr ganddi yn sôn am ei hoffter o'r emyn:

Fe'i clywais hi gyntaf, flynyddoedd yn ôl, mewn capel bach
hardd o eiddo'r Y.M.C.A. ar lan Môr Tiberias, ac wedi'i hoffi
hi fwy-fwy ers hynny. Gan fod ei phenillion yn berthnasol
iawn i'n hoes ni, rwy'n apelio (drwy'r GWYLIEDYDD) am i
un o'n beirdd ei chyfieithu i'r Gymraeg.

Mae'n debyg mai perthnasedd arbennig y geiriau i heddiw yw eu pwyslais ar dawelwch a llonyddwch mewn byd llawn rhuthr, yn enwedig felly yn y llinellau:

Drop thy still dews of quietness
Till all our strivings cease;
Take from our souls the strain and stress
And let our ordered lives confess
The beauty of thy peace.

Yn ôl llythyr gan E.H. sydd yn fy meddiant roedd Mrs Evans-Jones wedi ei holi am gyfieithiad cyn hynny, ond nid oedd wedi dechrau ar y dasg nes cael ei sbarduno gan ei llythyr i'r *Gwyllydydd* ym Mawrth 1992.

Ddeufis yn ddiweddarach ymddangosodd ei gyfieithiad yn y *Gwyllydydd*, rhif 55, Mai 1992. Mae'n debyg nad oedd yn waith hawdd i drosi'r emyn, gan ei fod wedi diwygio'i drosiad cyntaf yn bur sylweddol dros gyfnod o flynyddoedd. Dyma'r ffurf a roddodd arno yn 1992:

Fwyn Dad ac Arglwydd dynol-ryw,
O maddau'n llwybrau ffôl:
ac â'n hiawn bwyll gwisg ni, O Dduw;
sancteiddiach fo ein mawl, a'n byw
yn bur, heb ddal yn ôl.

Mewn semel ffydd y clywodd rhai
ar lan Tiberias gynt
daer alwad grasol Crist di-fai;
codwn ar frys, fel hwy'n ddi-lai
a'th ddilyn ar dy hynt.

Mor dawel Sabath Canaan wlad
a'i bryniau uchel glas,
lle ciliai'r Mab i rannu'n rhad
dragwyddol heddwch gyda'i Dad
a'i 'sbonio trwy rad ras.

Distawed ust yr hedd a'i swyn
ein bost a'n clebar gwael
sy'n boddi sibrwd d'alwad mwyn,
a doed dy fendith mor ddi-gŵyn
â'r nefol fanna hael.

Doed gwllith llonyddwch atom ni
i ddifa'n gwingo croes;
O llaesa strach a straen ein hoes,
a thystied trefn ein taith a'n moes
i harddwch dy hedd di.

O chwyth trwy wres ein blysiâu i gyd
dy falm a'th olew oer;
darfydded chwant, aed cnawd yn fud:
trwy wynt a thân, daeargryn 'nghyd
O doed llef ddistaw lôr!

Yn rhifyn 57, Awst-Medi cafwyd llythyr ganddo yn ymddiheuro am y gwall odli yn y pumed pennill (mewn gwirionedd, newidiwyd patrwm yr odli), ac yn cynnig y darlleniad hwn:

Rho wllithoedd dwys ddistawrwydd, Dad,
nes difa'n gwewyr ni;
a symud straen a strach ein 'stad,
a thystied trefn ein byw'n ddi-wad
i harddwch d'heddwch di.

Ymddangosodd y cyfieithiad drachefn yn *Cristion* 64, Mai-Mehefin 1994, ond yn ei ffurf gyntefig, heb y pumed pennill diwygiedig. Yna yn rhifyn 66, Medi-Hydref 1994 ymddangosodd fersiwn diwygiedig eto. 'Dyma un o'r pethau mwyaf trafferthus a fentrais ei wneud,' meddai E.H. 'Dichon fod y dôn *Repton*, sydd mor adnabyddus, yn ei gwneud yn anodd, heb sôn am gyfriniaeth Whittier y Crynwr.' Yna mae'n ymddiheuro am y cam-odli yn y pumed pennill, ac yn ychwanegu: 'O edrych dros y cyfieithiad drachefn, gwelais amryw o fân bethau y dylid eu diwygio er mwyn glynu'n nes at y gwreiddiol ac er mwyn gwneud yr emyn yn ystwythach o beth i'w ganu ar y dôn *Repton*.' Dyma'r fersiwn diwygiedig a ymddangosodd ym Medi-Hydref 1994:

Fwyn Dad ac Arglwydd dynol-ryw,
maddau'n claf lwybrau ni,
a'n hadfer i iawn bwyll, O Dduw;
sancteiddiach fo ein mawl a'n byw,
mewn dwysach barch i ti.

Mewn semel ffydd, fel clywodd rhai
ar lan Tiberias gynt
rasusol alwad Crist di-fai,
awn ninnau'n awr, fel hwy'n ddi-lai,
a'th ddilyn ar dy hynt.

Mor dawel Sabath Ganaan wlad
a gosteg bryniau glas,
lle plygai'r Mab a rhannai'n rhad
dragwyddol dangnef gyda'i Dad
ddehonglid trwy rad ras.

Fe ddiffydd fath ddistawrwydd swyn
ein gwaith a'n geiriau gwael
sy'n boddi llais dy alwad mwyn,
a doed dy fendith mor ddi-gŵyn
â'th nefol fanna hael.

Dy wllithoedd o lonyddwch moes
nes difa'n hingoedd ni;
a symud strach a straen ein loes,
a thystied trefn ein rhawd i'r oes
mor hardd dy heddwch di.

O chwyth trwy byliau chwant i gyd
dy falm a'th ennaint cain;
darfydded nwyd, aed cnawd yn fud:
trwy wynt a thân, daeargryn 'nghyd,
O tyrd, lef ddistaw fain!

Nid oedd eto'n gwbl fodlon ar ei waith, ac mae gennyf gopi yn ei law ei hun o'r trosiad fel yr oedd yn niwedd yr 1990au. Newidir 'claf lwybrau' yn y pennill cyntaf i 'ffôl lwybrau' (newidiad er gwell, mae'n siŵr); 'ddehonglid trwy rad ras' ym mhennill 3 i 'a'i daenu trwy rad ras'; 'Fe ddiffydd fath ddistawrwydd' ym mhennill 4 i 'Distawai'r fath dangnefedd'; a 'trwy wynt a thân, daeargryn 'nghyd' ym mhennill 6 i 'trwy wynt, daeargryn, tân ynghyd'. Dyma'r crefftwr wrth ei waith, yn ail-feddl, yn diwygio, yn gloywi.

Trwy ei gyfieithu gofalus a graenus ar nifer o emynau gadawodd E. H. Griffiths waddol sicr i'n hemynyddiaeth. Trwy ddwyn i arfer yn ein cynulleidfaedd Cymraeg emynau Saesneg adnabyddus, cyfoethogodd ein mawl a dyfnhau ein profiad. Am hynny mae gennym le i ddiolch ac i gofio amdano gyda serch a pharch arbennig.